# Diogelu: Cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml
# Agor y Llyfr (Cymru a Lloegr )

---

1. **Pam fod angen i mi roi copi o Bolisi Diogelu Agor y Llyfr a'r Cod Ymddygiad Diogelu i Arweinydd fy Eglwys a Swyddog Diogelu yr Eglwys / Enwad?**

   Mae gan Arweinydd eich Eglwys gyfrifoldeb dros recriwtio pobl sy'n gwirfoddoli fel storïwyr Agor y Llyfr. Dros sicrhau eu bod yn addas a'u bod yn cael eu cydnabod ganddynt fel rhan o'r teulu Cristnogol. Maent yn gyfrifol am sicrhau fod Storïwyr yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac mae'n bosib y byddant yn trefnu gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd trwy'r eglwys fel rhan o'r broses recriwtio. Mae angen i Swyddogion Diogelu'r Eglwys / Enwad wybod am y drefn sydd i'w dilyn a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei hysbysu i Agor y Llyfr / Cymdeithas y Beibl pe bai rhywun yn rhoi gwybod iddynt fod storïwr gwirfoddol yn ymddwyn yn amhriodol. Mae hefyd angen iddynt wybod beth yw'r drefn o ran rhoi gwybod pe bai digwyddiad yn ymwneud â phlentyn yn cymryd lle neu'n cael ei hysbysu y tu allan i oriau ysgol. Mae gofyn i Dimau Eciwmenaidd wybod pwy yw eu Swyddogion Diogelu cyfatebol a sut i gysylltu â hwy pe bai rhywun yn rhoi gwybod am ddigwyddiad yn ymwneud â storïwr gwirfoddol o enwad arall.

2. **Mae fy ysgol yn mynnu bod yn rhaid i ni i gyd dderbyn gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd trwy'r ysgol – beth ddylem ei wneud?**

   Siaradwch â swyddog Diogelu eich Eglwys/ Enwad i egluro'r sefyllfa. Bydd angen i'ch eglwys a'r ysgol ddod i gytundeb sut y mae mynd ati i recriwtio'n ddiogel a sicrhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

   Dylid egluro i'r Pennaeth eich bod yn dod i'r ysgol ar ran yr eglwys, a bod angen i'r eglwys wirio a sicrhau fod storïwyr yn addas i'r gwaith. Gall aelodau'r timau bellach fod yn berchen ar wiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd unigol eu hunain a gellir eu dangos i unrhyw un sy'n gofyn am eu gweld, ar yr amod eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth diweddaru ar-lein yn fuan wedi'r gwiriad, ond mae cyfyngiad amser ar y cofrestru a thaliad bach. Gofynnwch a yw'r ysgol yn barod i weld gwiriad cludadwy y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os oes un gennych yn barod.

3. **Mae'r Pennaeth eisiau cadw copïau o'n Datgeliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn yr ysgol. A yw hyn yn angenrheidiol?**

   Gall yr ysgol naill ai nodi'ch manylion (gan fod arni angen prawf ei fod yn ddiogel i chi gael mynediad) neu mae modd gwneud copi o'r wybodaeth, ond rhaid i bopeth gael ei gadw dan glo. Mae'r hawl gennych i ofyn ymhle mae'r wybodaeth yn cael ei chadw.
   Mae i fyny i bob storïwr benderfynu a ydynt yn fodlon caniatáu i'w gwybodaeth bersonol fynd i'r ysgol. Os yw Storïwr yn cytuno â hyn ac os oes gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gofnod o ddigwyddiadau eraill (nad ydynt yn gysylltiedig), ni ddylai hyn effeithio ar roi caniatâd i berson fynd i'r ysgol, ond yr ysgol ei hun fydd yn penderfynu. (Os yw'r ysgol yn gwrthod, efallai yr hoffech awgrymu y gallai Swyddog Diogelu'r Eglwys ymweld â'r ysgol am sgwrs fach gyfeillgar er mwyn amddiffyn cymeriad yr unigolyn.) Os bydd storïwr yn gwrthod caniatáu i gopi o'r dystysgrif gael ei gyflwyno i'r ysgol, yr ysgol wedyn fydd yn penderfynu a yw am i'r Storïwyr gael mynediad.

4. **Rydw i'n perthyn i dîm Eciwmenaidd – i bwy ddylwn i roi gwybod am ymddygiad anaddas storïwr gwirfoddol?**

   Rhowch wybod i Swyddog Diogelu eich Eglwys / Enwad a gofynnwch am gyngor. Mae'n bwysig bod pob Storïwr gwirfoddol yn gwybod pwy yw Swyddog Diogelu ei Eglwys / Enwad. Dylai'r wybodaeth hon gael ei dangos ar hysbysfyrddau'r eglwys ond os oes unrhyw ansicrwydd dylid gofyn i Arweinydd yr Heglwys.

5. **Rydw i'n sylwi fod gan un plentyn lawer o gleisiau ac mae'n ymddangos yn ofnus pan fyddwn yn yr ysgol yn paratoi fel tîm ar gyfer cynulliad/gweithred o addoliad Agor y Llyfr. I bwy ddylwn i roi gwybod am fy mhryder?**

   Dylech wybod beth yw polisi diogelu'r ysgol a phwy yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (Lloegr) ac Uwch-berson Diogelu Dynodedig (Cymru) er mwyn i chi allu rhoi gwybod iddo/iddi am eich pryderon. Mae'n bwysig fod pob Storïwr gwirfoddol yn gwybod pwy yw Swyddog Diogelu yr ysgol. Gall rhai ysgolion ofyn i dimau Agor y Llyfr fynychu sesiwn hyfforddi byr a drefnir ganddynt ar eu polisi a gweithdrefnau diogelu ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n dod i ysgolion. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o Bolisi Diogelu Agor y Llyfr a dylai hwn eich cynorthwyo gyda materion diogelu. Dylai'r timau hefyd fynychu hyfforddiant rheolaidd Agor y Llyfr.

6. **Gan amlaf byddwn yn casglu plant o'r ystafell ddosbarth pan fyddant yn helpu gyda chynulliadau Agor y Llyfr, A allwn ni barhau i wneud hyn?**

Dewch i gytundeb â'r Pennaeth ar y dull gorau i'r plant ddod atoch pan yn rhan o'r cynulliad/ gweithred o addoli ar y cyd, er enghraifft: oes modd iddynt ddod i'r man cyfarfod bum munud yn gynnar? Os yw storïwr gwirfoddol yn casglu plant, yna mae'n rhaid i ddau storïwr gwirfoddol fynd gyda'i gilydd. Cofiwch na ddylech byth fod ar eich pen eich hun gyda phlant.

7. **Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n canfod mai fi yw'r unig aelod o'r tîm sydd ar gael i gynnal cyflwyniad Agor y Llyfr?**

   Bwriadwyd i Agor y Llyfr gael ei gyflwyno gan dîm. Trafodwch y sefyllfa gyda'r Pennaeth neu'r Cydlynydd Addysg Grefyddol a phenderfynu beth fyddai'r dewis gorau o gofio nad oes modd i chi fod ar eich pen eich hun gyda phlant. Mae hyn yn cynnwys symud o gwmpas safle'r ysgol.

8. **Mae plentyn yn gofyn i chi ei gymryd i'r tŷ bach – beth ddylech chi ei wneud?**

   Gwnewch yn siŵr fod pawb yn y tîm yn gwybod beth yw polisi'r ysgol ynglŷn â chymryd plant i'r tŷ bach a dilynwch y gweithdrefnau.

9. **Mae myfyriwr am fod yn rhan o'n tîm Agor y Llyfr am gyfnod byr. A yw hyn yn cael ei ganiatáu?**

   Erbyn hyn, gellir ceisio gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pobl ifanc 16 mlwydd oed neu hŷn. Rhaid i arweinydd y tîm ofyn am ganiatâd y Pennaeth a Swyddog Diogelu'r Eglwys/ Enwad i'r unigolyn ifanc gael ymuno â'r tîm yn yr ysgol. Rhaid i arweinydd y tîm gymryd cyfrifoldeb drosto / drosti a bod yn bresennol yn bersonol gyda'r person ifanc gydol yr amser a dreulir yn yr ysgol.

10. **Ar hyn o bryd mae gen i dystysgrif y Swyddfa Cofnodion Troseddol (*CRB*) – ydy hyn yn golygu fod gen i warant o hyd?**
    Nid oes gan dystysgrifau y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyfnod penodedig o ran dilysrwydd ond bydd eich eglwys yn eu hadolygu neu eu hadnewyddu'n rheolaidd. Mae rhai enwadau yn adolygu neu adnewyddu bob tair blynedd, eraill bob pum mlynedd. Holwch eich enwad i weld beth yw'r cyfnod adnewyddu. Bryd hynny bydd gofyn i chi gael datgeliad manwl trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd heb wirio rhestr y rhai sydd wedi'u gwahardd. Mae datgeliadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi disodli datgeliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ers 2013 felly fe ddylech sicrhau datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os mai datgeliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol sydd gennych. Mae eglwysi fel arfer yn adnewyddu eu gwiriadau bob tair i bum mlynedd am eu bod ond cystal â'r diwrnod y cawsant eu gwneud, neu cyn hynny. Fodd bynnag, dylech hefyd wneud cais am ddatgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os oes newid wedi bod o ran eich manylion

personol e.e. cyfeiriad neu enw – bryd hynny bydd angen i chi ofyn i Swyddog Diogelu eich Eglwys/Enwad drefnu gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar eich cyfer

11. **Mae gen i ddatgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Swyddfa Cofnodion Troseddol yn barod drwy fy eglwys am fy mod yn gweithio gyda phlant. Oes angen un arall yn benodol ar gyfer Agor y Llyfr?**

Cyn belled â bod y dystysgrif naill ai'n dystysgrif gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gyda) neu (heb) wirio rhestr y rhai sydd wedi'u gwahardd. Nid yw gwiriad Sylfaenol yn ddigonol.

12. **Mae fy eglwys/enwad/esgobaeth/ yn dweud nad oes gennyf angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Beth ddylwn ei wneud?**

Cyn belled â bod yr eglwys yn defnyddio trefn 'recriwtio diogel' a bod yr ysgol yn fodlon gyda'r modd yr ymdrinnir â storïwyr, bydd yn bosibl cael mynediad i ysgolion, ond mae hyn yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae rhai ysgolion bellach yn mynnu bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu gwneud. Mae Cymdeithas y Beibl wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ac wedi ymgynghori â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a thimau diogelu enwadol wrth baratoi'r polisi hwn a dywedwyd yn glir fod storïwyr gwirfoddol yn gymwys i dderbyn gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (heb wirio rhestr y rhai sydd wedi'u gwahardd)

13. **Beth ddylem ei wneud os nad yw datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dod yn ôl yn glir?**

Bydd eich tîm diogelu enwadol cenedlaethol yn gallu eich cynghori am fanylion y gollfarn, ac yna ynghyd â Swyddog Diogelu'r Eglwys/ Enwad byddant yn penderfynu a yw'r unigolyn yn addas ar gyfer rôl storïwr gwirfoddol. Dylid cadw cofnod ganddynt o sut ddaethpwyd i'r penderfyniad. Os oes unrhyw gofnod o gam-drin plant ni ddylid caniatáu i berson ymuno â'r tîm a chael mynediad i ysgolion.